"FY NGHARTREF BACH CLYD."

1. Rwy'n breuddwydio am fynyddoedd hen fy ngwlad,
Lle y crwydrwn pan yn blentyn mewn mwynhad,
Bum yn byw dan haul y De,
Bythol haf brydferth'a'r lle;
Ond mae nghalon rhwng mynyddoedd hen fy ngwlad.

2. 'Rwyf yn gweld y bwthyn annwyl ar y bryn,
Clywaf alaw nant y mynydd yn y glyn;
Nid oes dim drwy'r byd yn grwn
Fel y cariad cynnes hwn,
Lanwai'r bwthyn bychan, unig, ar y bryn.

3. O! rwy'n gweld y fynwent ddistaw megis cynt,
Clywaf eto swn yr awel ar ei hynt;
A phan rydd fy Nuw im' hedd,
Carwn yma fan fy medd,
Gyda hen gyfeillion hoff y dyddiau gynt.

R. LLOYD JONES.

From the English Words of W. S. Gwynn Williams,
"My Little Welsh Home."

Gellir hefyd gael Cyfieithiad Cymraeg o
"The Pibgorn."

Supplied by Wyn-Edwards, Morris & Co.,
61 Renshaw Street, Liverpool.